

MARILYN BRYAN-JONES

ETIFEDDIAETH

Mae Marilyn Bryan-Jones yn falch ei bod yn Garibïaidd; hanner Jamaicaidd a hanner Montserratian, ac mae'r etifeddiaeth honno'n rhedeg drwy ei bywyd.

Siapiodd bwyd, cerddoriaeth, hiwmor a chynullïadau cymunedol ei magwraeth, gan feithrin cynhesrwydd, gwydnwch a chred ddofn mewn gwneud i bobl deimlo'n groesawus.

CYMRU YW...

BALCHDER CYSYLLTIEDIG CAREDIG

Mae Marilyn wedi teimlo erioed ei bod yn Ddu ac yn Gymraes.

Wedi'i geni a'i magu yng Nghasnewydd, dywed fod perthyn yn dod gan y bobl - y cynhesrwydd, y cysylltiad â'r balchder.

Cryfhawyd ei hymdeimlad o le drwy gynrychioli Cymru mewn pêl-rwyd a magu ei mab yn ddwyieithog, hyd yn oed wrth gael profiadau o wahaniaethu o bryd i'w gilydd.



CYMUNED



CYFRANIAD

Cymuned yw gwaith oes Marilyn.

Mae hi wedi hyfforddi pêl-rwyd am bron i hanner canrif, gan fentora chwaraewyr ar bob lefel a sefydlu clwb pêl-rwyd cerdded cyntaf Cymru.

Y tu hwnt i chwaraeon, mae hi'n gweithio ym maes cydraddoldeb a llywodraethu, yn cadeirio Caribbean Heritage Cymru, ac yn gwasanaethu fel Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Digidol Iechyd a Gofal Cymru.

CRYFDERAU A LLAWENYDD

Mae Marilyn yn adnabyddus am ddod â phobl ynghyd, creu syniadau, hwyluso cydweithio a helpu eraill i ddod o hyd i'w hyder, eu goleuni a'u potensial.

“BYDDWCH YN CHI A
CHRÛWCH EICH STORI EICH
HUNAN –
GWNEWCH WAHANIAETH!”